OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2017 No. 1326

# Gorchymyn Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 5, Arbedion, Darpariaethau Darfodol a Throsiannol) 2017

**Cyfnod trosiannol ar gyfer asiantaethau nyrsys y gwneir cais mewn cysylltiad â hwy i gofrestru fel gwasanaeth cymorth cartref**

**15.** Pan fo person wedi ei gofrestru fel person sy'n cynnal asiantaeth nyrsys o dan Ddeddf 2000 yn union cyn y prif ddiwrnod penodedig a bod yr ardal y mae'r asiantaeth yn darparu gwasanaethau ynddi wedi ei phennu mewn cais a wneir cyn y prif ddiwrnod penodedig o dan adran 6 o'r Ddeddf fel man y mae gwasanaeth cymorth cartref i'w ddarparu mewn perthynas ag ef yna mae'r person i'w drin fel pe bai'r person yn ddarparwr DSG fel—

(a) bod cyfnod trosiannol o'r prif ddiwrnod penodedig hyd nes y diwrnod pan benderfynir yn derfynol ar y cais o fewn ystyr erthygl 4(5);

(b) bod erthygl 4(1) yn gymwys yn ystod y cyfnod trosiannol;

(c) bod erthygl 5 yn gymwys yn ystod y cyfnod trosiannol;

(d) bod Rheoliadau Asiantaethau Nyrsys (Cymru) 2003(**1**) yn parhau i fod yn gymwys i'r person yn ystod y cyfnod trosiannol.

(**1**) O.S. 2003/2527 (Cy. 242).